

## **Bwletin Awdurdod S4C - Mis Medi 2003**

### **Animeiddio**

Cyfeiriwyd at y ffaith fod cytundeb swydd llawn-amser y Cyfarwyddwr Animeiddio wedi dod i ben ddiwedd mis Awst. Soniwyd y byddai yna ddigwyddiad yn yr Wyl Ffilm Animeiddio yn edrych nôl ar 21 mlynedd o animeiddio yng Nghymru a byddai yna gyfle i dalu teyrnged i Chris Grace am ei waith yn ystod y cyfnod yma.

### **Y Cyfarwyddwr Rhaglenni**

Croesawyd Iona Jones i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Rhaglenni newydd S4C. Roedd yn hyfryd i'w chroesawu yn ôl i S4C ac edrychwyd ymlaen at gyfnod disglair i'r gwasanaeth rhaglenni o dan ei gofal.

### **Cyfarfodydd yr Awdurdod**

- (a) Cadarnhawyd y byddai cyfarfod arbennig o'r Awdurdod i drafod adolygiad S4C a strategaeth i'r dyfodol yn cael ei gynnal ar 14 Hydref.
- (b) Cyfarfod gyda Chyngor Darlledu Cymru (BBC Cymru) - Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ar 13 Tachwedd yn S4C.

### **Cyfarfod Cyhoeddus yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Meifod**

Adroddwyd mai braidd yn siomedig fu'r cyfarfod cyhoeddus ar Faes yr Eisteddfod ym mis Awst. Un o'r ffactorau wnaeth effeithio ar yr achlysur oedd y ffaith ei bod hi'n affwysol o boeth ac ni wnaeth hyn arwain at yr awyrgylch gorau. Teimlwyd, o edrych yn ôl, y byddai'r digwyddiad wedi elwa o fod wedi gofyn i fwy o bobl baratoi cyfraniadau penodol.

### **Richard Hooper, Cadeirydd Bwrdd Cynnwys Ofcom**

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi cwrdd gyda Richard Hooper a Sue Balsom, yr Aelod dros Gymru ar Fwrdd Cynnwys Ofcom, yn swyddfeydd S4C ar 20 Awst. Cafwyd cyfarfod da iawn a manteisiwyd ar y cyfle i esbonio'r cefndir tu ôl i gais S4C i'r DCMS i gynnal adolygiad. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol i wahodd Richard Hooper i un o gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol.

## **Arglwydd McIntosh, Gweinidog y DCMS dros Ddarlledu –**

Adroddwyd bod cyfarfod da ac adeiladol wedi'i gael gyda'r Arglwydd McIntosh ar 9 Medi yn Llundain. Roedd yn amlwg yn berson a chanddo ddiddordeb mewn darlledu. Pe bae yna gyfle'n codi, byddai'n dda i fedru ei groesawu i S4C.

### **Aelodaeth yr Awdurdod**

Soniwyd ei fod yn drueni nad oedd Huw Wynne-Griffith yn gallu bod yn bresennol yn yr hyn a fyddai wedi bod ei gyfarfod olaf o'r Awdurdod. Er hynny, dymunodd y Cadeirydd nodi'n ffurfiol gwerthfawrogiad o'r gwaith arbennig yr oedd Huw Wynne-Griffith wedi cyflawni ar yr Awdurdod, yn enwedig ar faterion ariannol ac archwilio.

### **Yr Apêl Elusennol**

Ystyriwyd papur oedd yn adolygu gweithgareddau apêl elusennol S4C yn 2003 ac oedd yn gwneud argymhellion ar gyfer y drefn elusennol ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Panel yr Apêl o dan gadeiryddiaeth yr Aelod, Cefin Campbell, wedi ystyried y papur yb barod ac yn cefnogi'r argymhellion oedd gerbron yr Awdurdod. Cytunwyd y dylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, sef:

- (a) bod S4C yn parhau gyda'r polisi o gynnal apêl blynyddol;
- (b) y dylid, eleni, hysbysebu am geisiadau ar gyfer apeliadau 2004 a 2005
- (c) y dylid parhau gyda'r polisi o gynhyrchu fideos

ac, yn ogystal, dylid adolygu'r polisi elusennol yn flynyddol.

### **Adolygiad S4C**

Trafodwyd adroddiad a wnaeth adrodd ar y datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf wrth baratoi ar gyfer adolygiad allanol S4C. Yn benodol, ystyriwyd pwyntiau oedd wedi codi o gyfarfodydd wedi'u cynnal gyda chyrrff allanol megis Bwrdd yr Iaith, y Cyngor Llyfrau, a'r Llyfrgell Genedlaethol. Nodwyd bod yna gyfarfodydd pellach wedi'u trefnu gyda'r Urdd a'r Cyngor Celfyddydau.

### **Telerau Masnachol S4C wrth Gomisiynu oddi wrth Gynhyrchwyr Annibynnol**

Ystyriwyd papur wnaeth ofyn i'r Awdurdod gytuno i'r egwyddorion oedd yn sylfaen i bapur polisi ar delerau masnachol S4C wrth gomisiynu rhaglenni. Roedd y polisi hwn wedi ei baratoi yn ôl gofynion yr ITC ond gan hefyd gymryd i ystyriaeth sefyllfa unigryw S4C. Roedd trafodaethau gyda TAC ynglŷn â chynnwys y ddogfen yn parhau. Nodwyd y byddai angen cyflwyno dogfen derfynol i'r ITC erbyn mis Rhagfyr.

## **Nawdd**

Ystyriwyd papur oedd yn gwneud argymhellion ar geisiadau ar gyfer nawdd. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd fel a ganlyn

- (a) Ffresh - £500 ar gyfer gwyl myfyrwyr delweddau symudol
- (b) Welsh International Black Film Festival - £1,000 ar gyfer y trydydd digwyddiad blynyddol
- (c) Chwarae Teg [*Datganodd Elan Closs Stephens ddiddordeb yn y mater hwn.*] - Hyd at £1,000 ar gyfer ei gynhadledd flynyddol.

## **Cydymffurfiaeth**

Derbyniwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod ar 12 Medi 2003. Yn benodol, ystyriwyd:

*Pnawn Da – 5 Mai 2003* – Tynnwyd sylw'r Awdurdod at eitem pan ddarllenodd westai, Arwel Jones, ei gerdd 'Barbeciw Drws Nesa'. Gofynnwyd i'r Awdurdod benderfynu a oedd y gerdd yn torri cymal 4.1 o'r Canllawiau Cydymffurfiaeth. Wrth ystyried y mater, gwyliodd yr Aelodau dâp o'r eitem dan sylw ac ymateb y cwmni cynhyrchu i lythyr yr oedd yr Ysgrifennydd wedi gyrru atynt ar y mater. Yn benodol, nodwyd bod Tinopolis wedi ymddiheuro am y sefyllfa.

### **Cytunwyd:**

- (i) Bod yr eitem uchod wedi tramgwyddo'r canllawiau cydymffurfiaeth. Roedd cynnwys y gerdd yn cynrychioli stereoteipio o'r math gwaethaf, roedd yn dilorni pobl du ac nid oedd yn dderbyniol bellach.
- (ii) Er bod y cwmni wedi ymddiheuro, teimlwyd yn gryf ei fod yn rhan o gyfrifoldeb golygyddol y cwmni i drefnu nad oedd y fath hwn o gynnwys yn cyrraedd y sgrîn. Dylid gofyn i'r cwmni cynhyrchu, felly, pa drefn o ran rheolaeth olygyddol fyddai'n cael ei roi mewn lle i sicrhau bod achlysur tebyg ddim yn gallu digwydd eto yn y dyfodol.

Yn ogystal, rhoddwyd sylw i adroddiad yr Uned Fonitro ar ddarllediadau S4C yn ystod cyfnod ymgyrchu yr etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2003. Yn bennaf, roedd yr Aelodau'n falch i nodi bod yna ar y cyfan gydbwysedd rhwng y sylw cafodd y pedair prif blaid ar draws y rhaglenni.

## **Cyfarfodydd yr Awdurdod 2004**

Ystyriwyd rhestr o ddyddiadau awgrymedig gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod yn 2004 a chadarnhawyd bod y dyddiadau hyn yn dderbyniol.

## **Cyflwyniad gan y Comisiynydd Chwaraeon a Digwyddiadau**

Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad gan Gareth Davies, y Comisiynydd Chwaraeon a Digwyddiadau. Canolbwyntiodd y Comisiynydd ei gyflwyniad ar faterion yn ymwneud â rygbi yn sgil y newidiadau parthed y strwythur yng Nghymru a'r ffaith bod Cwpan Rygbi'r Byd ar drothwy'r drws.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni mai'r amcan oedd i wenud y gorau o ddigwyddiad Cwpan Rygbi'r Byd. Byddai thema Awstralia yn cael ei gyflwyno ar draws y gwasanaeth rhaglenni yn ystod y cyfnod gyda ffilm, drama, a chyngherddau yn ychwanegu at yr arlwy a'r tywydd a'r we hefyd yn chwarae eu rhan.

## **Materion Er Gwybodaeth**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 11 Gorffennaf 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol